Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Digartrefedd pobl ifanc a gadawyr gofal:

## Mapio ymyriadau yng Nghymru

Tamsin Stirling

Awst 2018

# Ein cenhadaeth

Sefydlwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru ym mis Hydref 2017.  Ei chenhadaeth yw gwella polisïau a gwasanaethau cyhoeddus drwy gefnogi gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol cydnerth ynghylch beth sy'n gweithio.

Mae'r Ganolfan yn cydweithredu ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi eraill er mwyn cyfosod a pharatoi tystiolaeth sy'n bodoli a chanfod bylchau ble mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau ac ymarferwyr er mwyn datblygu syniadau ffres ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ganfod, defnyddio a chael mynediad at dystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol all helpu i hysbysu a gwella polisi.
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cynhyrchu, gwerthuso, cymhwyso a chael mynediad at dystiolaeth ynghylch beth sy'n gweithio o ran mynd i'r afael â heriau economaidd a chymdeithasol allweddol; a
- Defnyddio ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwella dealltwriaeth o sut y gall tystiolaeth hysbysu a gwella polisïau a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau llunio a gweithredu polisïau.

Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i greu capasiti ymysg ymchwilwyr i ymgysylltu ag ymchwil dylanwadol sydd yn berthnasol i bolisi.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Cyllidwyr Craidd

Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** yn 1883.  Wedi ei lleoli mewn prifddinas ffyniannus, mae Caerdydd yn brifysgol  uchelgeisiol ac arloesol, sydd yn amcanu at feithrin perthnasoedd rhyngwladol cryf tra'n dangos ei hymrwymiad i Gymru.

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU, sy'n sefydliad newydd sydd yn dod â saith cyngor ymchwil y DU, Arloesi yn y DU ac Ymchwil Lloegr at ei gilydd er mwyn gwneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesedd ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sydd yn gyfrifol am feysydd allweddol yn cynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys


Crynodeb 4

Cyflwyniad 5

Cyd-destun 6

Newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi 6

Newidiadau cyllido 7

Faint o bobl ifanc yr effeithir arnynt? 9

Proffil digartrefedd pobl ifanc 9

Proffil gadawyr gofal 11

Digartrefedd a gadael gofal 12

Mapio ymyriadau 13

Rhai sylwadau ar yr ymarferiad mapio 14

Camau gweithredu a argymhellir 18

Cyfeiriadau 21

Atodiad 1: Cymharu Schwan et al (2018) a fframweithiau polisi allweddol Llywodraeth Cymru 23

Atodiad 2: Sefydliadau rhanddeiliaid a gyfwelwyd 24

Atodiad 3: Mapiau o ymyriadau cenedlaethol a lleol 25

# Crynodeb

- Mae mapiau cychwynnol o ymyriadau digartrefedd pobl ifanc ar draws Cymru yn cael eu darparu, gan ddefnyddio gwybodaeth a gyhoeddwyd a chyfweliadau dros y ffôn ag unigolion allweddol mewn timau opsiynau tai awdurdodau lleol.

- Dylid trin y mapiau fel cam cyntaf wrth ddatblygu gwybodaeth fanwl am ymyriadau digartrefedd pobl ifanc.

- Maent yn dangos gwahaniaethau arwyddocaol rhwng awdurdodau lleol - o ran trefniadau gwaith a'r gwasanaethau a ddarperir/sydd ar gael i bobl ifanc sydd yn wynebu digartrefedd.

- Mewn nifer fechan o awdurdodau lleol, nid yw'r gofynion elfennol ar gyfer cydweithio (e.e. rhannu gwybodaeth, protocolau ar y cyd wedi eu sefydlu). Mae hynny yn gwneud cam â phobl ifanc sydd angen cymorth gyda thai.

- Mae canllawiau ar weithio gyda gadawyr gofal a phobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref wedi cael eu darparu i awdurdodau lleol ar ffurf dwy ddogfen: *Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion* (Llywodraeth Cymru 2016a) a **Fframwaith Llety a Chymorth i Adawyr Gofal** (Barnardo's 2016) Mae peth arloesedd yn amlwg hefyd.

- Mae bylchau yn y ddarpariaeth tai i bobl ifanc sengl yn cynnwys llety brys priodol digonol, gwasanaethau i bobl ifanc ag anghenion cymhleth, a phrinder llety anghenion cyffredinol fforddiadwy.

- Mae yna gyfleoedd tymor byr, canolig a hirdymor i gryfhau gwasanaethau atal digartrefedd pobl ifanc, ac i integreiddio mwy ar y flaenoriaeth yma mewn datblygiadau polisi ehangach, yn cynnwys:
    - Dyrannu mwy o gyllid ar gyfer digartrefedd pobl ifanc yn 2019-20.
    - Integreiddio i strategaethau digartrefedd 2018 awdurdodau lleol.
    - Integreiddio i Adolygiad Annibynnol Llywodraeth Cymru i Dai Fforddiadwy.

# Cyflwyniad

Ynghyd â'r adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol, *Atal Digartrefedd Pobl Ifanc*, a gynhaliwyd gan Schwan et al. (2018) comisiynwyd Tamsin Stirling gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i gynnal ymarferiad mapio ymyriadau digartrefedd pobl ifanc ar draws Cymru, gan ganolbwyntio ar adawyr gofal fel is-grŵp penodol.

Nod yr astudiaeth amlinellol ategol hon oedd cynnal arolwg o ymyriadau digartrefedd pobl ifanc yng Nghymru, a'u lleoli yng nghyd-destun yr adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol. Nid oedd yr ymarferiad mapio yn adolygu a oedd yr ymyriadau unigol a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol wedi eu gwerthuso neu beidio, gan yr awdurdod lleol eu hunain neu'n annibynnol. Mae'r mapio yn ystyried ymyriadau yn benodol ar gyfer pobl ifanc 16 i 25 oed (er bod lleiafrif o'r ymyriadau yn cynnwys pobl ifanc 14 oed). Nid oedd gwasanaethau/ymyriadau a ddarparwyd i bawb oedd yn wynebu digartrefedd y gallai pobl ifanc gael mynediad atynt yn gynwysedig, oni bai fod yna elfen benodol ynddynt oedd yn targedu pobl ifanc.

Mae'r ymarferiad mapio a'r naratif ategol wedi cael ei hysbysu gan:

- Ganfod a chwestiynu ffynonellau gwybodaeth megis strategaethau digartrefedd, strategaethau tai lleol, cyfeirlyfrau o wasanaethau Cefnogi Pobl a gyllidir ac ystadegau a chyhoeddiadau perthnasol;
- Adolygiad o wybodaeth am wasanaethau sydd ar gael ar-lein;
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid gyda nifer fechan o hysbyswyr allweddol yn Llywodraeth Cymru a thu hwnt;
- Cyfweliadau dros y ffôn gydag aelod o'r tîm opsiynau tai/digartrefedd mewn 19 o'r 22 awdurdod lleol.

# Cyd-destun

Yn 2017 bu i Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, ymrwymo i ddiweddu digartrefedd erbyn 2027, fel cefnogaeth i nod clymblaid Cymru ar gyfer Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd Ymhlith Pobl Ifanc. Hefyd fe gyhoeddodd gyllid ychwanegol o £10 miliwn ar gyfer digartrefedd pobl ifanc yn 2019-20. Yn fwy diweddar, cyhoeddwyd bod grŵp gorchwyl a gorffen, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Tai ac Adfywio, Rebecca Evans, wedi cael ei sefydlu. Mae digartrefedd pobl ifanc yn un o ddau faes gwaith fydd yn hysbysu ffocws cychwynnol y grŵp, a'r llall yw Tai yn Gyntaf.

Mae gwella deilliannau bywyd i adawyr gofal yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru; mae Ffyniant i Bawb, strategaeth y llywodraeth, yn cydnabod y gall gadawyr gofal fod angen cymorth dwys wrth bontio i fywyd oedolion. Erbyn hyn mae Grŵp Cynghori Gweinidogol yn goruchwylio gwaith ar wella deilliannau, ac mae i hynny dri maes blaenoriaethol:

- Gostwng nifer y plant mewn gofal yn ddiogel;
- Gwella deilliannau i blant sydd eisoes yn y system gofal;
- Cefnogi gadawyr gofal wrth iddynt bontio i fywyd oedolion a dyfodol llwyddiannus.

Yn gyfochrog â hynny mae Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i wasanaethau cyhoeddus i blant a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal (NAWPAC 2018). Mae profiadau pobl ifanc sy'n gadael gofal hefyd wedi cael sylw gan Gomisiynydd Plant Cymru, ac mae hynny wedi arwain at adroddiad *Breuddwydion Cudd* 2017 (Llywodraeth Cymru 2017) ac adroddiad dilynol a gyhoeddwyd tua blwyddyn yn ddiweddarach ym Mawrth 2018 (Llywodraeth Cymru 2018).

Mae ffocws yr adroddiad yma ar bobl ifanc/gadawyr gofal fyddai efallai yn wynebu risg o fod yn ddigartref, wedi cael ei hysbysu gan adroddiad yn 2015 ar gyfer Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru gan Anna Whalen a ddarganfu bod effeithiolrwydd cydweithio rhwng Gwasanaethau Tai a Phlant a darpariaeth Cefnogi Pobl ar gyfer gadawyr gofal yn amrywio'n sylweddol ar draws Cymru.

# Newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi

Bu newidiadau arwyddocaol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf yng nghyd-destun deddfwriaeth a pholisi yng Nghymru mewn perthynas â gadawyr gofal a phobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref. Mae'r rhain yn cynnwys y:

- Gweithredu Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 a Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Llesiant (Cymru);
- Cyhoeddi *Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth:* Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion (Llywodraeth Cymru 2016a) a Fframwaith Llety a Chymorth i Adawyr Gofal

(Barnardo's 2016) er mwyn cefnogi cynllunio effeithiol a darparu tai a chymorth i bobl ifanc a gadawyr  gofal;

- Datblygu rhaglen *Pan Fydda I'n Barod* (Llywodraeth Cymru 2016b) sydd yn galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i aros gyda'u gofalwyr maeth am fwy o amser;
- Cyflwyno *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid* (Llywodraeth Cymru 2014) sy'n amcanu at leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt yn derbyn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Sefydlu ymgyrch Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd Ymysg Pobl Ifanc Cymru (Llamau 2018), sydd ar hyn o bryd yn canolbwyntio ei waith ar bedwar maes: rhoi erfyn ar ddigartrefedd pobl ifanc yn y gymuned LGBT+; deall a lleihau'r cysylltiadau rhwng datgysylltu addysgol a digartrefedd pobl ifanc; deall a lleihau'r cysylltiadau rhwng y system gofal a digartrefedd pobl ifanc; a chymorth i rai â phroblemau iechyd meddwl sydd yn profi digartrefedd pobl ifanc yng Nghymru.

# Cyllido newidiadau

Mae newidiadau wedi digwydd o ran y ffordd y darperir cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer atal digartrefedd ac ymateb i hynny pan mae'n digwydd. Yma rwyf yn crynhoi'r newidiadau yn ogystal â rhai dyraniadau cyllid untro allweddol diweddar.

Mae'r gyllideb a ddyrannwyd yn wreiddiol i gefnogi gweithredu Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 erbyn hyn yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw cyffredinol (RSG) ac mae wedi cael ei godi i £6 miliwn y flwyddyn. Erbyn hyn hefyd mae £6 miliwn arall y flwyddyn, oedd yn arfer ariannu'r gwaith o reoli llety dros dro, yn mynd tuag at yr RSG. Hefyd, mae gan Lywodraeth Cymru grant atal digartrefedd sydd yn cael ei ddyrannu i ystod o brosiectau; yn 2018/19 dyfarnwyd bron i £1 miliwn i brosiectau oedd yn gweithio'n benodol gyda phobl ifanc er mwyn atal a thaclo digartrefedd. Mae'r prosiectau yma yn gweithredu mewn 15 o'r 22 ardal awdurdod lleol, ac mae yna un prosiect ar gyfer Cymru gyfan.

Mae nifer o ymyriadau digartrefedd pobl ifanc hefyd yn cael eu hariannu gan raglen Cefnogi Pobl. Mae Cefnogi Pobl a'r grant atal digartrefedd yn rhan o Raglen Ariannu Hyblyg o 2018-19 sydd yn amcanu at ddod â nifer o ffrydiau grant at ei gilydd.

Yn ystod hydref 2017, roedd £2.6miliwn y flwyddyn arall ar gael ar gyfer prosiectau mewn pedwar maes; taclo cysgu ar y stryd, iechyd meddwl, y sector rhentu preifat a digartrefedd pobl ifanc. Aeth cyfran fechan o'r arian yma at brosiectau digartrefedd pobl ifanc.

Fel rhan o'r gwaith trawslywodraethol ar wella deilliannau plant sy'n derbyn gofal, rhyddhawyd mwy o adnoddau yn ystod 2017-18 ar gyfer gwaith i gefnogi gadawyr gofal. Dyrannwyd £625,000 i awdurdodau lleol er mwyn datblygu neu wella lleoliadau gwaith/cynlluniau hyfforddiant ar gyfer gadawyr gofal. A sefydlwyd cronfa Dydd Gŵyl Dewi ar gyfer gadawyr gofal yn 2017, sydd yn

cynnwys £1 miliwn ar gyfer cymorth ariannol uniongyrchol i adawyr gofal i'w helpu i bontio at fyw yn annibynnol.

Y mwyaf arwyddocaol o ran maint yw'r £10 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar gyfer 2019-20 fydd yn cael ei dargedu yn benodol ar gyfer digartrefedd pobl ifanc. Yn fy marn i byddai effaith bosibl mewnbwn ariannol mor arwyddocaol yn cael ei gynyddu'n sylweddol petai'r arian yn cael ei rannu dros fwy nag un flwyddyn ariannol. Byddai hynny yn rhoi cyfle i werthuso, graddoli a chynllunio ar gyfer prif lifo dulliau llwyddiannus.

# Faint o bobl ifanc yr effeithir arnynt?

Yn yr adran hon, rwyf yn defnyddio ystadegau swyddogol a'r cyfweliadau a gynhaliwyd er mwyn amlinellu maint digartrefedd pobl ifanc, a nifer y bobl ifanc sydd yn gadael gofal pob blwyddyn yng Nghymru.

## Proffil digartrefedd pobl ifanc

Y flwyddyn ddiweddaraf y mae ystadegau ar ddigartrefedd ar draws Cymru gyfan ar gael ar ei chyfer yw 2017-18. Mae tablau 1 a 2 isod yn dangos niferoedd a chyfrannau y rhai y cofnodwyd eu bod wedi cysylltu ag awdurdodau lleol i gael cymorth gyda thai oedd yn 16-17 a 18-24 oed o'u cymharu â chyfanswm yr aelwydydd yn y ddwy flynedd 2016-17 a 2017-18. Er bod y canrannau yr un fath ar draws y ddwy flynedd, bu i nifer y bobl ifanc yn y ddau grŵp oedran y darparwyd cymorth iddynt gan awdurdodau lleol ostwng ychydig rhwng 2016-17 a 2017-18, tra bod cyfanswm yr aelwydydd a gafodd gymorth gan awdurdodau lleol wedi cynyddu rhywfaint rhwng y ddwy flynedd.

### Tabl 1: Aelwydydd y rhoddwyd cymorth tai iddynt yn ôl oedran, 2016-18

| | 2016-2017 | | | 2017 -2018 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 16-17 oed | 18-24 oed | Cyfanswm aelwydydd | 16-17 oed | 18-24 oed | Cyfanswm aelwydydd |
| Nifer | 810 | 6963 | 28731 | 780 | 6804 | 28881 |
| % cyfanswm yr aelwydydd a gafodd cymorth | 3 | 24 | 100 | 3 | 24 | 100 |

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru (2017b, 2018)

Efallai nad yw rhai pobl ifanc sydd yn wynebu digartrefedd yn cysylltu ag awdurdodau lleol i gael cymorth, neu efallai eu bod yn derbyn cymorth gan sefydliadau eraill. Er nad oes yna amcangyfrif ffurfiol o faint digartrefedd cudd ymysg pobl ifanc yng Nghymru, mae'r rhifau yn Nhablau 1 a 2 yn debygol o fod yn is na gwir nifer y bobl ifanc sydd yn ddigartref neu sy'n cael eu bygwth gan ddigartrefedd bob blwyddyn yng Nghymru.

Gofynnwyd i gynrychiolwyr o awdurdodau lleol yn ystod y cyfweliadau dros y ffôn a fu yna unrhyw newidiadau yn nifer y bobl ifanc oedd yn cysylltu â nhw i gael cymorth ers dechrau gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd ar ddigartrefedd a gwasanaethau cyhoeddus yn Ebrill 2015 a 2016. Roedd yr ymatebion yn amrywiol, ac nid oedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yn nodi unrhyw newid neu duedd, roedd lleiafrif o'r awdurdodau yn nodi gostyngiad (a hynny yn cael ei briodoli i gydweithio effeithiol ac ymyriadau atal) a nifer fechan yn adrodd am gynnydd. Bu i un awdurdod yn benodol nodi cynnydd yn nifer y bobl ifanc 21-25 oed yr oedd gwasanaethau yn ddyledus iddynt o dan Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2015 sydd angen cymorth gyda chynnal neu sicrhau llety.

Mae Tabl 3 yn edrych ar gyfran y rhai sydd yn cysylltu ag awdurdodau lleol i gael cymorth sydd wedi cael deilliannau cadarnhaol a negyddol mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth yn ystod 2017-18. Mae'n ddiddorol nodi bod y cyfraddau atal yn arwyddocaol uwch ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed nac ar gyfer rhai 18-14 oed a phob grŵp oedran.

### Tabl 2: Canran deilliannau cadarnhaol deddfwriaeth digartrefedd yn ystod 2017-18 yn ôl grŵp oedran

| | 16-17 oed | 18-24 oed | Pob grŵp oedran[1] |
|---|---|---|---|
| Ataliaeth lwyddiannus i'r rhai y rhoddwyd cymorth ataliol iddynt | 79% | 63% | 66% |
| Digartrefedd wedi ei ddatrys yn llwyddiannus i'r rhai y rhoddwyd cymorth iddynt i sicrhau llety | 59% | 41% | 41% |
| Gwasanaethau wedi eu darparu yn gadarnhaol i'r rhai cymwys oedd yn anfwriadol ddigartref a gydag angen blaenoriaethol | 67% | 79% | 78% |
| Gwasanaethau wedi eu terfynu oherwydd diffyg cydweithrediad | 2% | 4% | 3.5% |
| Cais wedi ei dynnu'n ôl oherwydd colli cysylltiad | 3% | 7% | 6.5% |
| Cymorth wedi ei wrthod | 0% | 2% | 2% |

Ffynhonnell: (Ystadegau Cymru 2018)

Ers Ebrill 2016 mae ystadegau wedi cael eu casglu mewn perthynas â lleoli pobl ifanc mewn llety gwely a brecwast dros dro o dan ddeddfwriaeth digartrefedd neu wasanaethau cymdeithasol. Mae'r ystadegau a ryddhawyd ar gyfer 2016-17 (Ystadegau Cymru 2017b) yn nodi bod y ffigyrau a ddarparwyd yn debygol o fod wedi eu tan gyfrif oherwydd nad oedd rhai awdurdodau lleol yn

[1] Pobl ifanc ac oedolion 16 oed a hŷn

gallu rhoi gwybodaeth lawn. Yn ystod 2016-17 bu i rai 16 ac 17 oed gael eu gosod mewn llety gwely a brecwast dros dro ar 72 achlysur o dan ddeddfwriaeth digartrefedd, ac ar 150 achlysur arall o dan deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol plant. Yn ystod yr un flwyddyn, gosodwyd gadawyr gofal 18 i 21 oed mewn llety gwely a brecwast dros dro o dan ddeddfwriaeth digartrefedd ar 72 achlysur. Nid oedd gwybodaeth gyhoeddedig am y defnydd o lety gwely a brecwast wedi ei ddadansoddi yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol ar gael pan ysgrifennwyd hyn.

Mae data ar gyfer 2017-18 (Ystadegau Cymru 2018) (sydd eto wedi ei dan gyfrif oherwydd gwybodaeth anghyflawn gan rai awdurdodau lleol) yn dangos gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o lety gwely a brecwast ar gyfer rhai 16 ac 17 oed a gadawyr gofal 18 i 24 oed:

- Bu i rai 16 ac 17 oed gael eu gosod mewn llety gwely a brecwast dros dro ar 75 achlysur o dan ddeddfwriaeth digartrefedd, ac ar 114 achlysur arall o dan deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol plant;
- Gosodwyd gadawyr gofal 18 i 21 oed mewn llety gwely a brecwast dros dro o dan ddeddfwriaeth digartrefedd ar 60 achlysur.

# Proffil gadawyr gofal

Mae adroddiad blynyddol yn cael ei gynhyrchu gan Lywodraeth Cymru ar blant sydd yn derbyn gofal gan awdurdodau lleol (Ystadegau Cymru 2017a). Yn ystod 2016-17, bu i 677 o bobl ifanc 16 oed a hŷn adael gofal, ac roedd 509 o'r rhain yn 18 oed neu'n hŷn, 116 yn 17 oed, a 52 yn 16 oed. Bu i 193 o'r rhain symud i drefniadau byw yn annibynnol heb dderbyn unrhyw ofal, bu i 141 ddychwelyd adref i fyw gyda'u rhieni, perthnasoedd neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant, a bu i 89 barhau i fyw gyda chyn rieni maeth o dan Drefniadau Cyd-Fyw Pan Fydda i'n Barod. Nodwyd bod 203 o bobl ifanc wedi gadael gofal am resymau 'eraill', trosglwyddwyd 32 i ofal gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a dedfrydwyd 28 i garchar.

Ar y dyddiad y bu iddynt adael gofal, ystyriwyd bod 613 (91 y cant) o'r bobl ifanc yma mewn llety addas. Mae llety o'r fath yn cael ei ddiffinio fel sefydliadau cymunedol (megis cartrefi preswyl). llety â chymorth, byw yn annibynnol, llety, a byw gyda rhieni/perthnasoedd. Mae'n ddiddorol bod y diffiniad o lety addas hefyd yn ymestyn i lety pontio addas a charchar addas; yn fy marn nid yw'r ddau yma yn opsiynau cadarnhaol i berson ifanc sydd yn gadael gofal. Ystyriwyd bod 64 o unigolion ifanc (9 y cant) yn byw mewn llety anaddas ar y dyddiad y bu iddynt adael gofal; mae llety o'r fath yn cynnwys gwely a brecwast anaddas, carchar anaddas, llety brys anaddas a 'llety anaddas arall'.

Bu i dystiolaeth gan Gymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru i ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (NAWPAC 2018) nodi bod nifer y plant oedd yn derbyn gofal wedi cynyddu 25 y cant yn ystod y degawd a fu. Bu iddo hefyd amlygu pwysau cynyddol ar deuluoedd o ganlyniad i doriadau i lesiant a gwasanaethau. Mae'r ddau ffactor yn debygol o arwain at fwy o gynnydd yn

nifer y plant sy'n derbyn gofal, a gadawyr gofal o ganlyniad i hynny, yn ystod y blynyddoedd i ddod.

## Digartrefedd a gadael gofal

Mae yna dystiolaeth amlwg o ryng-gysylltiadau rhwng statws gadael gofal a digartrefedd. Ym mis Gorffennaf 2017, bu i Crisis gynhyrchu adroddiad ar atal digartrefedd ar gyfer gadawyr gofal, gadawyr carchar a phobl oedd yn dioddef cam-drin domestig ar gyfer Grŵp Seneddol Holl Bleidiau y DU ar gyfer Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd, a nododd bod un rhan o dair o adawyr gofal (33 y cant) yn dod yn ddigartref yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl gadael gofal, a bod 25 y cant o'r holl bobl ddigartref sengl wedi bod mewn gofal ar ryw adeg yn eu bywydau (Grŵp Seneddol yr Holl Bleidiau ar gyfer Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd).

Mae ymchwil a gynhaliwyd ar gyfer Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn 2015 wedi nodi, er bod tenantiaeth tai cymdeithasol yn cael ei ystyried yn eang fel yr opsiwn a ffafrir, mai prif achos digartrefedd ymysg gadawyr gofal yw methiant tenantiaeth - gydag oedran ifanc gadawyr gofal, diffyg paratoi a phrofiad o ymdopi ar eu pennau eu hunain yn ffactorau cyfranogol allweddol (Whalen 2015). Ar yr un pryd, mae'r ystadegau a ddyfynnwyd yn gynharach yn yr adroddiad yn dangos bod y defnydd o wely a brecwast yn parhau, ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed a gadawyr gofal 18 i 21 oed. Mae gosod pobl ifanc agored i niwed mewn gwely a brecwast yn fater sydd yn achosi pryder parhaus i sefydliadau eirioli a chymorth i adawyr gofal.

# Mapio ymyriadau

Mae fy mhroses o fapio ymyriadau digartrefedd pobl ifanc ar draws Cymru yn defnyddio cyfweliadau a gwybodaeth sylfaenol sydd ar gael ar-lein, yn cynnwys cyfeirlyfrau Cefnogi Pobl o wasanaethau a gwefannau sefydliadau'r trydydd sector. Caiff ei strwythuro drwy ddefnyddio topoleg atal digartrefedd a ddefnyddiwyd gan Schwan et al (2018), gan rannu ymyriadau i'r categorïau canlynol:

- **Ataliaeth strwythurol.** Mae hynny yn golygu gweithio ymlaen llaw i fynd i'r afael â'r ffactorau strwythurol a systemig sydd yn cyfrannu at ansicrwydd tai ac sy'n arwain teuluoedd ac unigolion at wynebu risg o fod yn ddigartref (Gaetz a Dej, 2017). E.e. ataliaeth cyffredinol (cyflenwad o dai fforddiadwy, deddfwriaeth, cymorth incwm), ataliaeth ddewisol (rhaglenni ysgol ar gyfer pobl ifanc sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref), ataliaeth a ddangosir (gwasanaethau/cymorth i bobl sydd yn wynebu anfanteision lluosog);
- **Ataliaeth systemau.** Mae hyn yn golygu mynd i'r afael â'r "methiannau sefydliadol a systemig sydd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn cyfrannu at y risg o fod yn ddigartref" (Gaetz a Dej, 2017). E.e. cael gwared â rhwystrau mewn perthynas â pholisi a gweithdrefnau, gwella mynediad at systemau, gwasanaethau a chymorth, cymorth ailintegreiddio ar gyfer pobl ifanc sydd yn pontio;
- **Ymyrraeth gynnar.** Mae hynny yn golygu polisïau, arferion ac ymyriadau sydd yn helpu unigolion sydd yn wynebu risg eithafol o fod yn ddigartref, neu sydd wedi profi hynny yn ddiweddar, i gadw eu tai presennol neu i gael mynediad cyflym at dai newydd a phriodol.
- **Atal troi allan.** Mae hynny yn golygu rhaglenni a strategaethau sydd wedi eu dylunio i gadw unigolion a theuluoedd sydd yn wynebu risg o gael eu troi allan yn eu cartrefi, ac sydd yn eu helpu i bobl osgoi bod yn ddigartref.
- **Sefydlogrwydd tai.** Mae hynny yn golygu mentrau a chymorth i bobl sydd wedi bod yn ddigartref fel y gall pobl gefnu ar ddigartrefedd mewn ffordd amserol a "pheidio â bod yn ddigartref fyth eto" (Gaetz a Dej, 2017). E.e. tai â chymorth, cymorth fel bo'r angen, cynorthwyo mynediad at incwm, addysg a chynhwysiant cymdeithasol.

Mae Atodiad 1 yn cymharu'r strwythur ataliol uchod ag elfennau *Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion* a *Fframwaith Llety a Chymorth i Adawyr Gofal* (Llywodraeth Cymru 2016a, Barnardo's 2016)

Mae'r mapiau drafft - Tablau A.1 ac A.2 - yn cael eu darparu yn Atodiad 3. Maent wedi eu hategu gan rai nodiadau rhybuddiol. Dylid eu hystyried fel cam cyntaf o ddatblygu gwybodaeth fwy soffistigedig am yr ymyriadau sydd wedi eu sefydlu ar draws Cymru. Yn bendant nid ydynt yn derfynol; ond fe'u cyflwynir yn hytrach fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth a mwy o ddatblygu. Yn ail, mae'r mapiau wedi cael eu llunio'n bennaf o safbwynt tai, ac ni roddwyd ystyriaeth fanwl i ymyriadau o safbwynt cyfiawnder pobl ifanc, gwasanaethau pobl ifanc, iechyd meddwl neu addysg. Mewn perthynas ag ymyriadau addysg, pan ysgrifennir hyn, mae Shelter Cymru yn mapio ataliaeth seiliedig ar addysg ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Nid oedd y canlyniadau ar

gael mewn da bryd i'w cynnwys yn yr adroddiad yma, ond byddai'n fuddiol eu hystyried law yn llaw â'r adroddiad[2]. Yn olaf, gellid categoreiddio rhai ymyriadau o dan fwy nag un o'r pum categori a nodwyd uchod; er hwylustod, gosodwyd pob ymyrraeth mewn un categori yn unig.

# Rhai sylwadau ar yr ymarferiad mapio

Roedd y wybodaeth oedd ei hangen ar gyfer datblygu'r ymarferiad mapio yma yn brinnach na'r disgwyl. Nid yw cyfeirlyfrau cyfredol o wasanaethau Cefnogi Pobl ar gael ar-lein ar gyfer pob ardal awdurdod lleol, ac mae'r wybodaeth ar wefannau awdurdodau lleol am wasanaethau i bobl ifanc sy'n wynebu digartrefedd yn amrywiol iawn. Mae rhai awdurdodau yn darparu gwybodaeth gyffredinol elfennol sydd yn berthnasol i rywun sydd angen cymorth gyda thai; mae eraill yn darparu gwybodaeth fanwl ar sail gyfreithiol, tra bod eraill yn darparu gwybodaeth a chyfeiriadau penodol ar gyfer pobl ifanc. Hefyd, mae gwybodaeth ar-lein a ddarperir gan sefydliadau arbenigol pobl ifanc yn amrywio  o ran ansawdd; nid yw'n bosibl bob amser canfod pa brosiectau/gwasanaethau a ddarperir i bobl ifanc ym mha ardaloedd. Roedd yn anodd i mi, fel ymchwilydd, gael mynediad at wybodaeth: gallwn ddychmygu pa mor anodd allai hynny fod i berson ifanc neu ei rieni/gofalwyr.

Bu'n fuddiol ystyried ystod ymyriadau digartrefedd pobl ifanc ar lefelau cenedlaethol a lleol gan ddefnyddio'r dopoleg ataliaeth. Mae'r dopoleg yn atgyfnerthu bod angen ystyried materion strwythurol a systemig sydd yn ymestyn y tu hwnt i dai er mwyn taclo digartrefedd pobl ifanc yn effeithiol. Mae'r adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol yn dod i'r casgliad y dylai atal digartrefedd pobl ifanc gynnwys pob un o'r pum maes ataliaeth er mwyn iddo fod ar ei fwyaf effeithiol, ac mae'n nodi'r meysydd ar gyfer pob un y mae tystiolaeth ar gael am effeithiolrwydd. Mae hefyd yn dod i'r casgliad bod ymchwil yn dangos bod ymdrechion i atal digartrefedd pobl ifanc angen ymyriadau a dulliau wedi eu targedu sydd yn delio â'r heriau penodol y mae pobl ifanc yn eu hwynebu. Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru yn cydnabod hynny yn y ffordd maent yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc â phroblemau tai, tra bod eraill yn defnyddio ymagwedd fwy cyffredinol, gan ddisgwyl i bobl ifanc fynd ati i gael mynediad at wasanaethau a phrosiectau a ddarperir ar gyfer yr holl grwpiau oedran

Efallai nad yw'n syndod bod y rhan fwyaf o'r ymyriadau lleol yng Nghymru yn perthyn i gategorïau ataliaeth systemau, ymyrraeth gynnar a sefydlogrwydd tai yn y dopoleg atal digartrefedd. Mae gwaith atal troi allan yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol a'u partner asiantaethau e.e. cysylltu â landlordiaid/cyfryngu, ond dim ond ychydig o enghreifftiau sy'n benodol berthnasol i bobl ifanc. Mae yna rai enghreifftiau o waith cyn-denantiaeth a sefydliadau hyfforddi, sydd yn ceisio lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl ifanc yn colli tenantiaeth. Fodd bynnag, o ystyried y dystiolaeth bod methiant tenantiaeth yn un o achosion allweddol digartrefedd yn achos gadawyr gofal, a'r pwynt a

2 Y person cyswllt ar gyfer y gwaith ym yw Darren Jones yn Shelter Cymru

godwyd uchod am ymyriadau a dargedir a dulliau ar gyfer pobl ifanc, byddai rhywun yn disgwyl y byddai'r mentrau yma yn bodoli'n fwy eang.

Mae'n amlwg bod trefniadau gwaith a gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sydd yn wynebu digartrefedd yn amrywio'n sylweddol o un awdurdod i'r llall. Mae gan rai awdurdodau dimau amlasiantaeth wedi eu cydleoli, perthnasoedd gwaith agos rhwng gwasanaethau tai a phlant ac ystod o opsiynau o ran ataliaeth, tai a chymorth i bobl ifanc hyd at 25 oed. Mewn awdurdodau eraill mae'n ymddangos nad yw hyd yn oed ymarferion gwaith sydd yn ofynnol o dan ddeddfwriaeth - e.e. asesiadau ar y cyd ar gyfer rhai 16 ac 17 oed, a chynllunio llwybrau i adawyr gofal - yn cael eu cynnal yn gyson. Yn yr un modd, mae'r elfennau a nodir yn nogfennau Llwybrau Cadarnhaol a Fframwaith Llety a Chymorth i Adawyr Gofal yn cael eu defnyddio'n helaeth mewn rhai awdurdodau lleol - a phrin yn cael eu defnyddio mewn rhai eraill.

Mae'r amrywiaeth yma mewn ymarfer yn gyson â chanfyddiadau adroddiad dilynol *Breuddwydion Cudd* y Comisiynydd Plant (Comisiynydd Plant: Cymru 2018) ac mae'n codi mater tegwch o ran y driniaeth mae pobl ifanc yn ei derbyn. Pan fo yna brinder gwasanaethau a darpariaeth, neu pan nad ydynt yn cael eu cydlynu'n ddigonol, mae'n amlwg bod hynny yn gwneud cam â phobl ifanc sydd angen cymorth i gael mynediad at dai ac i gynnal hynny.

Mae'r adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol yn amlygu bylchau sylweddol yn y dystiolaeth am effeithiolrwydd ymyriadau digartrefedd pobl ifanc; nid oedd yr ymarferiad mapio yma yn ymdrechu i gasglu gwybodaeth o'r fath. Fodd bynnag, mae geiriau un cynrychiolydd awdurdod lleol yn aros yn fy meddwl. *'Mae gennym y ddarpariaeth ond mae gennym ormod o fethiant - mae yna drosiant oherwydd nad yw'r cynlluniau yn cynnig yr hyn sydd ei angen ar bobl ifanc'.* Mae hynny yn codi cwestiwn i Lywodraeth Cymru. Os disgwylir i awdurdodau lleol weithredu dull penodol ar gyfer atal digartrefedd pobl ifanc, beth allai neu ddylai Llywodraeth Cymru ei wneud i'w cefnogi/annog i wneud hynny ac i ddatrys y bwlch o ran gweithredu? Mae'r adnoddau sydd ar gael i awdurdodau yn amrywio, o ran arian (Llywodraeth Cymru a ffynonellau cyllid eraill), ond hefyd o ran sut mae timau saff wedi eu strwythuro, sut mae timau yn cydweithio, eu partner asiantaethau, ac a yw un neu ragor yn arbenigwr mewn materion tai pobl ifanc. Pan fo'r Llywodraeth wedi rhoi rhyddid i awdurdodau lleol wneud newidiadau (neu beidio) e.e. peidio â chymhwyso'n fwriadol i rai 16 ac 17 oed a gadawyr gofal 18-21 oed, ac eithrio gadawyr gofal hyd at 25 oed o'r gofyniad i dalu'r Dreth Gyngor, mae rhai awdurdodau wedi cymryd camau ac eraill ddim - ac mae hynny hefyd yn codi materion o ran tegwch o safbwynt pobl ifanc.

O safbwynt tai, mae yna nifer cymharol fychan o ymyriadau sydd yn benodol yn targedu gadawyr gofal. Fodd bynnag, mewn rhai awdurdodau, mae timau opsiynau tai yn cael trafodaethau manwl â gwasanaethau plant ynghylch darpariaeth i adawyr gofal a pha wasanaethau newydd ellid eu sefydlu. Ac mewn rhai awdurdodau eraill, mae trefniadau gwaith dull cynhadledd achosion wedi eu sefydlu rhwng opsiynau tai a gwasanaethau plant er mwyn hwyluso cynllunio a darpariaeth i adawyr gofal.

O'r cyfweliadau ffôn ag awdurdodau lleol, mae'n amlwg bod nifer o awdurdodau yn datblygu eu dull o weithio gyda phobl ifanc a'r gwasanaethau ar eu cyfer. Mae nifer o awdurdodau yn ddiweddar wedi penodi i swyddi arbenigol yn benodol ar gyfer atal a thaclo digartrefedd pobl

ifanc, ac mae gan nifer gynlluniau ar gyfer gwella cydweithio gyda gwasanaethau plant ac asiantaethau allanol. Mae rhai awdurdodau yn cynllunio i ail dendro gwasanaethau Cefnogi Pobl a gyllidir ar gyfer pobl ifanc, tra bod eraill yn datblygu neu'n gwella timau neu ganolbwyntiau amlddisgyblaethol. Mae'r maes gwaith yma yn datblygu'n gyflym.

Mae'r ddeinameg yma yn ymestyn i feysydd anghenion na fodlonwyd, a sut y gellid mynd i'r afael â hynny. Mae yna rai enghreifftiau diddorol o feddwl arloesol yn cael ei gymhwyso i opsiynau llety a chymorth i bobl ifanc. Er enghraifft, yn ddiweddar mae Casnewydd wedi sefydlu prosiect gyda landlord yn y sector preifat ar gyfer gadawyr gofal oedd yn arfer bod mewn lleoliadau mwy costus a llai effeithiol, ac mae'n ystyried model seibiant ar gyfer pobl ifanc mewn gofal er mwyn darparu seibiant i'r bobl ifanc a'r sefydliad sy'n bodoli, er mwy helpu i gynnal lleoliadau yn y tymor hirach. Mewn enghraifft arall, mae Cyngor Abertawe wedi prynu cymorth dwys yn ôl y galw i bobl ifanc ag anghenion dwys, er mwyn cynnal eu llety; mae nifer o awdurdodau lleol eraill yn gweithio gyda landlordiaid (yn y sector cymdeithasol a phreifat) er mwyn datblygu neu gynyddu opsiynau llety a rennir. Bydd rhaid aros i weld a fydd arloesedd o'r fath yn cael ei ymestyn i ardaloedd eraill neu a fydd yr arferion yma yn aros yn yr awdurdod lleol ble maent yn cael eu datblygu.

Yn ystod y cyfweliadau ffôn, gofynnwyd i'r cyfweleion am fylchau mewn darpariaeth. Y bylchau y cyfeiriwyd atynt amlaf oedd (i) prinder cyffredinol o lety fforddiadwy i bobl ifanc, a (ii) darpariaeth i bob ifanc gydag anghenion cymhleth; (iii) nodwyd hefyd bod sicrhau llety brys priodol a hygyrch i bobl ifanc yn achosi problemau ar brydiau.

Felly beth mae hynny yn ei olygu i Lywodraeth Cymru a beth fyddai'r ffordd orau o wario'r adnoddau ychwanegol ar gyfer digartrefedd pobl ifanc yn 2019-20? Gan ystyried yr ymarferiad mapio yma a'r adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol, rwyf wedi myfyrio ar nifer o bosibiliadau:

- Mae'r dopoleg yn fframwaith defnyddiol y gellid ei ddefnyddio i fapio/ystyried ymyriadau atal digartrefedd pobl ifanc;
- Mae yna nifer o agendau atal cenedlaethol yng Nghymru allai effeithio'n gadarnhaol iawn yn y dyfodol ar atal digartrefedd pobl ifanc e.e. gweithio ar leihau profiadau plentyndod niweidiol ac effeithiau hynny;
- Mae yna gyfle i Adolygiad Annibynnol o Gyflenwad Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru i roi ystyriaeth sylweddol i anghenion tai pobl ifanc a sicrhau bod ei ganlyniadau yn cefnogi darparu ystod o opsiynau llety fforddiadwy i bobl ifanc er mwyn atgyfnerthu ataliaeth mewn perthynas â digartrefedd pobl ifanc;
- Ar hyn o bryd, mae yna wahaniaethau anghynaladwy rhwng awdurdodau o ran eu hymagwedd at, a'u darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ddigartref neu sydd yn wynebu risg o fod yn ddigartref, yn cynnwys gadawyr gofal. Mae yna rôl bosibl i'r Rhwydwaith Digartrefedd Cenedlaethol helpu i leihau gwahaniaethau o'r fath;
- Mae'n bwysig bod yna eglurder ynghylch y disgwyliadau mewn perthynas â dyrannu arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer digartrefedd pobl ifanc yn 2019-20. Gallai set o ofynion ar gyfer derbyn arian digartrefedd pobl ifanc yn 2019-20 gynnwys:

- Ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau wedi eu targedu/teilwra a darpariaeth i bobl ifanc;
- Swm y cydweithio rhwng gwasanaethau tai a phlant (fel lleiafswm) sy'n ofynnol o dan y gyfraith;
- Asesiad clir o ba wasanaethau/darpariaeth sydd eisoes yn bodoli a pha fylchau y bydd mwy o arian yn helpu i'w llenwi;
- Sut fydd y gwasanaethau/darpariaeth arfaethedig yn atal digartrefedd pobl ifanc (h.y. sut mae'n cydweddu â'r dopoleg ataliaeth);
- Sut fydd y gwasanaethau/darpariaeth fydd yn cael eu cyfrannu ar gyfer atal digartrefedd pobl ifanc yn cael ei fesur/asesu;
- Dynodi'r gronfa dystiolaeth ar gyfer y gwasanaethau/darpariaeth sydd yn cael eu cynnig;
- Sut fydd y gwasanaethau/darpariaeth yn parhau ar ôl 2019-20.

# Camau a awgrymir

Mae'r ymarferiad mapio wedi dechrau datguddio rhai anghysonderau o ran ymarfer, a pheth arloesedd diddorol, er mwyn atal/ymateb i ddigartrefedd pobl ifanc. O ystyried y dystiolaeth newydd yma, cynigir yr awgrymiadau canlynol:

- Bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol (e.e. drwy'r Rhwydwaith Digartrefedd Cenedlaethol) yn defnyddio'r ymarferiad mapio yma fel man cychwyn ar gyfer trafod ymyriadau i atal digartrefedd pobl ifanc. Byddai'n fuddiol ystyried y mapio law yn llaw â'r deilliannau tai a gyflawnwyd ym mhob awdurdod lleol ar gyfer pobl ifanc a gadawyr gofal;
- Wrth ystyried atal digartrefedd pobl ifanc ar lefelau polisi cenedlaethol a darpariaeth leol, bod ffocws yn cael ei roi ar bum maes y dopoleg ataliaeth - ataliaeth strwythurol, ataliaeth systemau, ymyrraeth gynnar, atal troi allan a sefydlogrwydd tai;
- Mae cymorth ymarferol yn cael ei roi i awdurdodau lleol er mwyn cymhwyso a defnyddio *Llwybrau Cadarnhaol a Fframwaith Llety a Chymorth i Adawyr Gofal* yn fwy cyson. Gallai hynny fod ar ffurf cymorth cymheiriaid drwy'r Fframwaith Digartrefedd Cenedlaethol;
- Mae'r awdurdodau lleol yma ble na sefydlwyd cydweithio cydnerth yn cael eu hannog i wella trefniadau rhwng gwasanaethau tai a phlant yn benodol;
- Mae'r Fframwaith Digartrefedd Cenedlaethol yn cael ei ystyried fel ysgogydd ar gyfer mynd ati i rannu ymarferion a phrofiad a gwneud cysylltiadau â rhwydweithiau perthnasol eraill sydd â diddordebau cyffredin e.e. y Fforwm Gadael Gofal. Gallai rôl ychwanegol i'r Rhwydwaith er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethau anghynaladwy o ran darpariaeth/cyflawni fod yn her adeiladol i'w aelodau;
- Mae awdurdodau lleol (naill ai yn unigol neu mewn grwpiau rhanbarthol) yn sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth lawn i bobl ifanc ddigartref neu sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref, yn cynnwys gadawyr gofal, a'r ystod o ymyriadau sydd wedi eu sefydlu er mwyn atal ac ymateb i ddigartrefedd pobl ifanc wrth ddatblygu eu strategaethau digartrefedd yn ystod 2018;
- Mae awdurdodau lleol a sefydliadau arbenigol pobl ifanc yn adolygu'r wybodaeth ar-lein maent yn ei darparu am eu gwasanaethau, a sut y gellir cael mynediad ati, er mwyn sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn hygyrch i bobl ifanc, eu teuluoedd/gofalwyr, a sefydliadau eirioli;
- Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu set o ofynion mewn perthynas â'r arian ychwanegol ar gyfer digartrefedd pobl ifanc yn 2019-20 sydd yn ystyried casgliadau yr adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol a'r ymarferiad mapio yma;
- Mae Adolygiad Annibynnol o Gyflenwad Tai Fforddiadwy Llywodraeth Cymru yn ystyried yr anghenion tai pobl ifanc, yn cynnwys gadawyr gofal, a ddatgelir yma. Mae'r mapio cychwynnol yma yn awgrymu bod yna brinder eiddo un ystafell wely ac opsiynau tai a rennir yn y sector rhentu cymdeithasol, yn ogystal â rhwystr i gael mynediad at lety yn y sector rhentu preifat sydd yn cael ei greu gan gyfyngiad ar swm y rhent a delir drwy'r

system fudd-daliadau. Mae'r canfyddiadau yma yn awgrymu bod dynodi opsiynau tai cynaliadwy, a mecanweithiau ariannu cysylltiedig, ar gyfer pobl ifanc yn ystod y blynyddoedd i ddod yn hanfodol. Gallai'r Adolygiad edrych ar fodelau tai penodol seiliedig ar dystiolaeth yn benodol ar gyfer pobl ifanc er mwyn cynyddu'r stoc tai sydd ar gael ar gyfer y grŵp oedran yma.

Gan adlewyrchu ar yr ymarferiad mapio a chasgliadau'r adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol, isod ceir awgrymiadau o ymyriadau y gellid eu sefydlu/gwella yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Mae'r ail res yn y tabl yn cynnwys ymyriadau sydd angen eu datblygu, eu profi a'u mireinio dros amser ble mae angen gweithredu yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor.

| ***Tymor byr*** | ***Tymor canolig*** | ***Hirdymor*** |
|---|---|---|
